COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 10 HYDREF 2022, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | M J Evans | H Griffiths | M Jones |
| E Richards | T Thomas | AJ Williams | E D Winstanley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D T Harrison a/ac J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Raeanna Grainger | Independent Reviewing Service Manager |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

7. DATGANIADAU O FUDD

Dim.

8. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1 ar 4 Gorffennaf 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

9. PRESENOLDEB DISGYBLION, EITHRIADAU, IECHYD A DIOGELU

Cyflwynodd y Rheolwyr Grwpiau ar gyfer Cymorth i Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Cynhwysiant a Gwella Ysgolion a Chymorth i Deuluoedd yr adroddiad a dywedodd mai diben yr adroddiad oedd rhoi manylion i'r Pwyllgor am sut roedd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn ymateb i faterion yn ymwneud â phresenoldeb disgyblion, gwaharddiadau, iechyd a diogelu a mynd i'r afael â nhw.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Cabinet a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i wneud unrhyw sylwadau cyn derbyn cwestiynau'r Aelodau.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at gynnydd parhaus yn y galw ar y meysydd Cymorth Cynnar a Gofal Cymdeithasol i Blant y bu'n rhaid eu darparu, fel darpariaethau statudol. Cyfeiriodd at bryder ynghylch y trefniadau meincnodi data a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau bod hyn yn cael sylw. Holodd a oedd galwad i'r holl ymarferwyr addysg gael eu hysbysu o drawma o ystyried nifer y gwaharddiadau ar gyfer ymddygiad treisgar ac ymosodol ac awgrymodd eu bod yn ystyried sut roedd Gwasanaethau Addysg yn cael eu darparu, pa mor amserol yr ymdriniwyd ag atgyfeiriadau a hyd y rhestrau aros.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg fod hwn yn fater ledled y DU ac wrth ystyried sut roedd y byd wedi newid ers y pandemig, anghofiwyd weithiau faint oedd plant wedi mynd drwyddo yn ifanc iawn. Roedd angen iddynt gofio bod y penderfyniadau a wneir ganddynt yn cael effaith ar fywydau ac iechyd meddwl plant a rhoddodd sicrwydd eu bod yn gweithio gydag ysgolion i roi'r cyfle gorau i bob plentyn wrth adael addysg yn ddeunaw oed.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod pwysau enfawr ar y system ac roedd y gyllideb yn mynd i fod yn heriol yn y dyfodol. Esboniodd fod proses datblygu proffesiynol helaeth ar waith ac roeddent yn gweithio'n agos iawn gyda thimau i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant ychwanegol a oedd o fudd i ysgolion yn cael ei gynnwys.

O ran y trefniadau diogelu addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles eu bod ganddynt Grŵp Diogelu Corfforaethol ac archwiliadau ysgol a oedd yn llinell sylfaen dda ar gyfer olrhain, monitro a gwella trefniadau diogelu mewn ysgolion. Roedd hi'n credu bod angen dull integredig ym Mhen-y- bont ar Ogwr o ran sut roeddent yn gweithio gyda'i gilydd wrth y drws ffrynt ac ar hyd taith y plant.

Roedd yr Aelodau'n pryderu am effaith yr argyfwng costau byw ar lesiant ac iechyd cyhoeddus plant. Roedd pryderon ynghylch cyflwr rhai o'r cyfleusterau addysgol, plant yn cerdded dwy neu dair milltir i'r ysgol pe na bai rhieni'n gallu fforddio ceir a allai effeithio ar lefelau presenoldeb yn gwaethygu, y geiriad ar rai o'r polisïau sy'n anodd eu deall, a gweithredu'r fenter Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgol Cynradd (UPFSM) o ystyried y diffyg adnoddau.  Cyfeiriwyd hefyd at achosion o addysgu ar benwythnosau er mwyn i ddisgyblion gyflawni graddau. Gofynnodd yr Aelodau i'r pryderon hyn gael eu hystyried ac a allai Swyddogion eu helpu i ddeall a rhoi sicrwydd i liniaru'r pryderon.

Dywedodd swyddogion y cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'u holl adeiladau yn rheolaidd, fodd bynnag, roedd pryderon am waith cynnal a chadw wrth gefn nad oedd yn wahanol i awdurdodau lleol eraill ac roeddent yn gweithio'n agos gyda'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau, yn enwedig y tîm landlordiaid corfforaethol, i sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni mor gyflym â phosibl. Ar hyn o bryd roeddent yn aros am ganlyniad adolygiad gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol (HTST) ac roeddent bob amser yn edrych i fireinio eu polisïau i sicrhau eu bod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cydymffurfio â disgwyliadau LlC ac yn cyd-fynd â pholisïau  LlC. Mynegodd swyddogion bryder os oedd achosion o addysgu ar y penwythnos a chytunwyd i ymchwilio i unrhyw achosion penodol a nodwyd all-lein. O ran UPFSM, roeddent yn gweithio gydag ysgolion i ddechrau clybiau brecwast a sut y gallent gyflymu'r prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd cyn gynted ag y gallent.

Trafododd yr Aelodau'r diffyg data perfformiad yn yr adroddiad ac y byddai'n ddefnyddiol derbyn data partneriaeth fel y gallent weld yn uniongyrchol sut yr oedd swyddogaethau cefnogol yn cael effaith ar blant yn y fwrdeistref sirol a'r deilliannau cadarnhaol yr oeddent yn cyfrannu atynt.

Sicrhaodd swyddogion fod data meincnodi yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau ac yn cael sylw. Maent wedi treulio llawer o amser yn ceisio cryfhau gweithio mewn partneriaeth. Erbyn hyn mae ganddynt grŵp gweithredol ar y cyd  sy'n cwrdd bob pythefnos ac yn dwyn ynghyd bartneriaid o Gymorth Cynnar, cefnogaeth deuluol o ofal cymdeithasol plant, yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac unrhyw bartner amlasiantaeth sy'n ychwanegu at y sgwrs ynghylch yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu ar draws y fwrdeistref sirol. O ran data perfformiad mae llu o ddata ar gael a byddai adroddiad manwl i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol am y canlyniadau, a oedd yn gadarnhaol.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch effaith y ddarpariaeth o gludiant ysgol ar yr agendâu diogelu, presenoldeb ac iechyd meddwl a chyfeiriwyd at ddigwyddiadau lle’r oedd dysgwyr wedi cael eu bwlio neu eu hanwybyddu oherwydd darpariaeth neu ddiffyg tocyn bws. Mynegwyd pryder ynghylch lles plant yn yr ysgol lle dyrannwyd mwy nag un ysgol i'r darparwr trafnidiaeth ac felly gallai fod yn hwyr yn cyrraedd, roedd aelodau o staff yn aros ar ôl i ofalu am ddisgyblion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y byddai'n cyfarfod â Gweinidog Addysg LIC ac Aelod etholaeth y Senedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr i drafod HTST a lobïo i'r adolygiad gael ei gwblhau er mwyn i'r sefyllfa gael ei hadnabod yn y dyfodol. Rhoddodd swyddogion wybod i'r Aelodau am ‘Dim tocyn Dim teithio’ a gyflwynwyd tair blynedd yn ôl ac roeddent yn bryderus i glywed am fwlio posibl mewn perthynas â hyn a gofynnwyd i Aelodau gyfeirio manylion penodol at Swyddogion y tu allan i'r cyfarfod. Dywedasant fod safiad cryf wedi'i gymryd gyda phobl yn camymddwyn ar eu cludiant i'r ysgol ac roeddent wedi gweithio'n agos gyda'r ysgolion i roi mesurau priodol ar waith yn gyflym iawn mewn perthynas â chyflawnwyr. Dywedodd swyddogion nad oedd unrhyw beth a oedd yn atal gweithredwr trafnidiaeth rhag defnyddio ei fflyd yn adeiladol, ond nid oeddent yn caniatáu i weithredwyr gynnal teithiau dwbl pe bai'n effeithio ar ddarparu cludiant ysgol yn amserol. Os oedd problem yn eu contractau a thelerau amodau, gallent roi rhybuddion a cheryddu gweithredwyr ar sail perfformiad gwael, ac ymchwilio i unrhyw honiadau.

Trafododd yr aelodau y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu a gofynnwyd i'r Penaethiaid a Wahoddwyd pa effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ysgolion ac aelodau staff a oedd yn treulio mwy o amser yn delio â'r atgyfeiriadau. Roeddent hefyd yn cwestiynu pa effaith yr oedd yr amser a dreuliwyd ar atgyfeiriadau yn ei chael ar ymarfer addysgu cyffredinol.

Cadarnhaodd y Penaethiaid a wahoddwyd fod atgyfeiriadau diogelu yn cymryd mwy o amser, ond roedd yr atgyfeiriadau'n bwysig ac fe'u cymerwyd o ddifrif. Dywedasant fod llawer o'u cyfarfodydd Ffederasiwn yn ymwneud â materion a phryderon diogelu a oedd yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, ac roedd yr analluedd i gysylltu â gweithwyr cymdeithasol yn her ynghyd â newid gweithwyr cymdeithasol yn rheolaidd a chyfraddau absenoldeb, a oedd yn cael effaith ar yr hyn a oedd yn digwydd yn yr ysgolion. Er bod gweithwyr cymdeithasol asiantaeth wedi cael eu cyflogi, gallent gael gwahanol brosesau a gweithdrefnau neu beidio â bod yn gyfarwydd â'r ardal leol, felly roedd heriau yn ychwanegol at y nifer sylweddol o atgyfeiriadau. Dywedasant hefyd eu bod yn delio â sefyllfaoedd eithaf amrywiol a dwys mewn ysgolion ac roedd yn ymddangos bod oedi wrth geisio cael gwybodaeth yn gyflym gan gydweithwyr y tu allan i'r ysgol a oedd yno i'w cefnogi. O ran yr effaith y mae atgyfeiriadau yn cael ar ymarfer addysgu, dywedwyd nad cwblhau'r atgyfeiriad ei hun ond yr amser a gymerwyd i gysylltu â'r Hwb Diogelu Aml-Asiantaeth (MASH) neu'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg ac yna'r cymorth a gawsant i'w gynnig i'r disgybl unigol a'u teuluoedd, fodd bynnag pwysleisiwyd mai dyma'r ymateb cywir a phriodol.

Dywedodd swyddogion y bu rhai heriau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol ac roeddent wedi mynd i'r afael â hynny yn gynharach yn y flwyddyn drwy gyflwyno tîm asiantaeth a reolwyd a oedd wedi arwain at bethau cadarnhaol a negyddol. Cytunwyd i fynychu cyfarfod Ffederasiwn os byddai hynny o gymorth.

Er nad oeddent yn dymuno trafod unrhyw achos penodol, gofynnodd yr Aelodau, a oedd yr atgyfeiriadau wedi cael rhyw fath o ddadansoddiad, a oedd themâu cyson yr oedd ysgolion yn eu hwynebu.

Dywedodd swyddogion eu bod yn gweld pobl ifanc yn ymddwyn yn heriol ac yn ymosodol tuag at eu cyfoedion a'r staff o fewn ysgolion a'r cymunedau lleol, gan ei gwneud yn straen ac yn anodd i'r ysgolion eu rheoli, ond eu bod hefyd yn gweld y problemau hyn o fewn cartref y teulu. Roeddent yn ystyried sut i hyrwyddo cymaint o wybodaeth a chyngor â phosibl i deuluoedd a chymunedau lleol i gynorthwyo gyda rhai o'r materion hyn. Dywedasant fod llawer mwy o bobl ifanc yn cyflwyno'u hunain gyda phroblemau pryder ac iechyd meddwl a bod llawer o waith yn cael ei wneud drwy wasanaethau cwnsela yn yr ysgol, gyda'u hanghenion yn cael eu hystyried yn unigol.

Gofynnodd yr Aelodau, mewn perthynas â MASH a Gwybodaeth Cyngor a Chymorth (IIA), a oedd galwadau'n cael eu cofnodi, gan fod ysgolion weithiau'n ffonio am gyngor i ddechrau cyn gwneud atgyfeiriad ac os na chafodd ei gofnodi, a oedd y plant hynny'n cael eu diogelu'n llawn. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at bwynt 4.6 yn yr adroddiad a'r derminoleg a ddefnyddiwyd a oedd yn awgrymu nad oedd yr holl bryderon yn cael eu dogfennu gan ofyn a ellid newid y geiriad pe bai'r holl bryderon yn cael eu cofnodi.

Nododd y swyddogion y derminoleg a dweud ei bod yn un system a ddefnyddiwyd o fewn ysgolion i gofnodi'r holl bryderon a bod yn rhaid i ysgolion gofnodi unrhyw bryderon oedd ganddynt ynghylch disgyblion. Argymhellwyd yn gryf pan fyddai ysgolion yn cysylltu â MASH ac IAA fod gweithwyr proffesiynol yn cyflwyno'r ffurflen atgyfeirio fel eu bod yn gwybod ei bod wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, roeddent yn ymwybodol bod atgyfeiriadau wedi digwydd dros y ffôn ac wedi dod yn llawer mwy cadarn o ran edrych ar hanes achos wrth wneud penderfyniad ar y ffordd orau o symud ymlaen a pha gamau i'w cymryd. Dywedodd swyddogion y byddent yn anfon nodyn at yr holl staff a gweinyddwyr gan sicrhau eu bod yn glir ynghylch y broses.

Trafododd yr Aelodau hyfforddiant diogelu yn cael ei wella i Lywodraethwyr a gofynasant a oedd modd gwneud hyfforddiant diogelu yn orfodol i Lywodraethwyr.

Dywedodd swyddogion nad oedd LlC yn gorfodi hyfforddiant diogelu i Lywodraethwyr ar hyn o bryd, ond eu bod wedi ei godi o fewn eu Grŵp Diogelu ac Addysg i adrodd yn ôl ac uwchgyfeirio.

Mynegodd yr Aelodau bryder mai dim ond ar gyfer disgyblion blwyddyn chwech ac uwch yr oedd cwnsela ar gael a bod angen i blant o dan yr oedran hwnnw weld eu Meddyg Teulu a chael eu hatgyfeirio, o ystyried yr anhawster o geisio cael apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu ar y pryd. Roeddent hefyd yn cwestiynu faint o amser yr oedd hi'n cymryd i'r plant hynny dderbyn cwnsela yn dilyn atgyfeiriad.

Dywedodd swyddogion fod ganddynt gynghorwyr yn yr ysgol o fewn ysgolion uwchradd ond bod ystod o wasanaethau eraill ar gael i ddisgyblion. Mewn ysgolion cynradd roedd ganddynt weithwyr lles a oedd wedi'u hyfforddi ac a oedd yn gymwys i gefnogi pobl ifanc yn y lleoliad hwnnw, ac roedd therapi chwarae ar gael i blant iau hefyd. Dywedasant y byddai rhestrau aros yn wahanol o ysgol i ysgol, ond gellid darparu diweddariad.

Cwestiynodd yr Aelodau'r Ffigur a gofnodwyd ar gyfer achosion ymddygiad mewn ysgolion uwchradd gan nad oedd yn rhoi llawer iawn o wybodaeth gyd-destunol. Gofynasant am drosolwg byr o sut yr oedd yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd unrhyw ffigurau dadansoddol, a oedd unrhyw wahaniaethau amlwg mewn rhannau o'r sir o gymharu â rhannau eraill ac a oedd unrhyw gydberthynas rhwng dangosyddion eraill, megis mynegai amddifadedd Lluosog Cymru a ffactorau eraill fel tlodi.

Dywedodd swyddogion fod 544 o waharddiadau penodol yn ystod y flwyddyn gyfan cyn y pandemig a hyd at fis Ebrill eleni roedd ganddynt 707. Eglurwyd bod ganddynt fwy o ddata yn gysylltiedig â rhai o'r materion a amlygwyd a oedd yn cael eu prosesu ar hyn o bryd ac y gellid eu hadrodd ar ôl eu dadansoddi.

Trafododd yr Aelodau bwynt 4.16 yr adroddiad a'r cynnydd o ran ymddygiad disgyblion, gan nodi eu bod wedi sylwi ar ymddygiad negyddol eu hunain y tu allan i'r ysgol. Roedd yr aelodau'n cofio bod gan ysgolion gysylltiadau â'r Heddlu trwy swyddog cyswllt yr Heddlu a gofynnwyd a oedd y rhain yn ôl mewn ysgolion ac a allai rhai gweithdai helpu i wella ymddygiad.

Dywedodd Pennaeth eu bod wedi ailddechrau ymweliadau â Swyddogion Cyswllt yr Heddlu yn eu hysgol i gyflwyno gweithdai a dywedodd Swyddogion y dylent fod yn mynd yn ôl i'r ysgol a byddent yn ei gyfeirio at gydweithwyr yn yr Heddlu i amlygu bod rhywfaint o bryder nad oedd mor hygyrch ag y dylai fod.

Trafododd yr aelodau i ba raddau y gallai'r lefelau uchel o ymddygiad gwael fod o ganlyniad i anhwylderau iechyd meddwl heb ddiagnosis. Roeddent yn cwestiynu'r amseroedd aros ar gyfer diagnosteg ar gyfer atgyfeiriadau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn gyffredinol, er ei fod yn fwy o gyflwr gwybyddol, hefyd yr amseroedd aros ar gyfer diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).

Dywedodd swyddogion fod elfen o gyswllt yn ddieithriad ac roeddent yn gweithio ar hynny drwy gysylltu â Swyddogion, ysgolion a theuluoedd. O ran amseroedd aros am ADHD, yn hanesyddol bu amseroedd aros hir am ddiagnosis ond gallent gael mwy o wybodaeth os oedd angen. O ran CAMHS, roeddent yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Iechyd ac roedd swyddog arweiniol clinigol dynodedig yn ei le. Roedd y dull ysgol gyfan o ymdrin â lles yn seiliedig ar y Fframwaith Nyth ac roedd darnau o waith ar waith ond nid oeddent lle’r oedd angen iddynt fod eto.

Llongyfarchodd yr aelodau Swyddogion ar y gwaith yr oeddent wedi bod yn ei wneud gydag anhwylderau gwybyddol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gofynasant a oedd bwlch rhwng dod o hyd i ddiagnosteg ar gyfer plant cyfrwng Cymraeg a phlant cyfrwng Saesneg.

Eglurodd swyddogion fod ganddynt ddarpariaeth dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr waeth beth fo'r iaith gyntaf a siaredir gan blentyn neu berson ifanc a gafodd ddiagnosis o awtistiaeth a gallent barhau â'u haddysg drwy'r cyfrwng hwnnw. Byddai'r ymateb yn union yr un fath p'un a oeddent yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cyn y pandemig bu trafodaethau ynglŷn â seicolegwyr addysg gan fod yr Aelodau wedi bod yn bryderus i ddeall ar y pryd eu bod dan bwysau ac wedi lleihau mewn niferoedd. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol.

Dywedodd swyddogion y bu galw cynyddol am y gwasanaeth ond y dylai fod yn ôl i'r capasiti llawn ar ddiwedd y tymor ac roedd mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith i nodi unrhyw ddiffygion.

Roedd yr aelodau'n pryderu ynghylch dysgwyr yn sefyll arholiadau am y tro cyntaf oherwydd yn ystod y pandemig roedd eu gwaith wedi cael ei asesu a gofynasant sut roedd y dysgwyr hynny yn cael eu paratoi a sut roedd eu lles yn cael ei gefnogi.

Dywedodd swyddogion fod llu o gefnogaeth ar gyfer lles i ysgolion a theuluoedd a gofynnwyd i'r Penaethiaid a fyddent yn rhoi rhai enghreifftiau i'r Pwyllgor.

Dywedodd penaethiaid eu bod wedi cyflwyno diwrnodau lles lle maent yn hepgor yr amserlen unwaith bob hanner tymor i ganolbwyntio ar faterion iechyd meddwl y mae'r disgyblion yn eu cyflwyno iddynt. Roeddent hefyd wedi cyflwyno cyfnod trafod ar

ddiwedd y dydd, lle mae disgyblion yn treulio peth amser gydag aelodau eu dosbarth i siarad am eu diwrnod ac yn rhannu pryderon, fel nad ydynt yn mynd â'r rheini adref gyda nhw. Roedd yna hefyd prynhawniau sesiynau cyfoethogi lle gallent ymlacio a gwneud rhywbeth a oedd yn wahanol i'r hyn a fyddai'n destun arholiad neu'n cael ei brofi.

Mynegodd yr Aelodau bryder, o ystyried y pwysau costau byw, a fyddai'r ffaith fod grantiau gwisg ysgol yn ariannol yn hytrach na thaleb yn arwain at yr arian yn cael ei wario ar fwyd yn hytrach na gwisg ysgol a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar lesiant a phresenoldeb ysgol plentyn.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod y gefnogaeth a'r llenyddiaeth oedd ar gael i blant yn ystod y pandemig ond pwysleision nhw fod angen cefnogaeth ar gael i blant a oedd yn gofyn cwestiynau am y rhyfel yn Wcráin i leddfu eu pryder a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Cyfeiriodd yr Aelodau at sut roedd mynediad at feddygon teulu yn cael effaith ar absenoldeb o'r ysgol gan fod dysgwyr yn absennol o'r ysgol am gyfnod estynedig oherwydd oedi wrth wneud diagnosis a thriniaeth. Cyfeiriasant at ddryswch ynghylch Covid a'r rheolau ar gyfer mynychu'r ysgol, gan fod unigolion yn cael gwybod bod ynysu yn ddewis, felly roedd rhai wedi bod yn ynysu, ac nid oedd rhai wedi gwneud hynny. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe gallent, fel awdurdod, weithio gyda'r Bwrdd Iechyd, ar ganllawiau i blant â Covid a phryd i ddychwelyd i'r ysgol.

Roedd swyddogion yn teimlo bod cyfathrebu cyson gan awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd yn bwysig i ddarparu cyngor i ysgolion a rhieni. Fel rhan o'r Grŵp Penaethiaid Gweithredol, roeddent wedi gofyn yn flaenorol i wybodaeth fod yn fwy clir i ysgolion i sicrhau y gellid ei chyfleu i rieni.

Roedd yr Aelodau'n pryderu am y Ffigur presenoldeb mewn ysgolion uwchradd o 86.5% a gofynasant sut yr oedd yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac a fyddai rhai ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gryn dipyn yn is na 86.5%.

Eglurodd swyddogion nad oedd ganddynt ddata dilysedig cyhoeddedig tebyg i ddyfarnu ar hynny. Dywedasant fod cydberthynas rhwng yr ardaloedd gydag amddifadedd uwch a'r ffigur is na'r canran a nodwyd, ond nid bob tro, roedd y sefyllfa'n amrywio.

Trafododd yr Aelodau hefyd fod achosion gwirioneddol lle'r oedd angen cymorth ar ddisgyblion a theuluoedd a gofynasant sut roedd yr awdurdod yn gwahaniaethu rhwng y teuluoedd hynny a oedd angen y gefnogaeth honno i helpu gyda phresenoldeb a'r rhai a oedd yn chwarae triwant. Roeddent yn deall bod LlC yn ailgyflwyno'r hysbysiadau cosb benodedig, a fyddai'n golygu cosb ariannol ar beidio â mynychu. Gofynnwyd i Swyddogion ym mha senario y byddai rhiant yn derbyn cosb ariannol a gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r teuluoedd sydd angen y gefnogaeth yn cael eu cosbi.

Dywedodd swyddogion fod cryfder yn eu model gan eu bod yn gallu rhoi cyd-destun ehangach ar yr amrywiaeth o resymau pam nad oedd disgyblion yn mynychu'r ysgol. Roeddent yn edrych arno fesul achos, fel mai cryfder y model oedd yr wybodaeth a dderbyniwyd gan ysgolion, roedd y Swyddogion Lles Addysg ganddynt o fewn y canolfannau ardal hynny ac yna'r bobl ifanc y gellid eu disgrifio fel rhai sydd ag absenoldeb parhaus yn seiliedig ar fodel cydsynio, byddent yn gweithio gyda'r teuluoedd hynny i geisio datrys y mater neu'r materion sy'n eu hatal rhag mynychu'r ysgol. O ran cosbau penodedig, roedd LlC wedi rhoi cyfarwyddiadau newydd ond ni fyddent yn eu defnyddio fel y dewis cyntaf.

Gofynnodd yr Aelodau, yn yr achosion mwyaf eithafol lle'r oedd yr holl fecanweithiau wedi'u defnyddio, a fyddent yn ystyried cyfeirio'r mater at yr Heddlu.

Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu a bod cydweithwyr yn yr Heddlu wedi'u hintegreiddio i'w model cyflawni o ran IIA, MASH a'r canolfannau lleol, felly lle byddai'r sgyrsiau hynny'n briodol, byddent yn eu cynnal, ond byddent yn dechrau ar y lefel gefnogol honno.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 15 yr adroddiad a gofynwyd i Swyddogion a oeddent yn gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau o ysgolion i Gymorth Cynnar mewn unrhyw ardaloedd penodol o'r sir, a oedd unrhyw bryderon neu ardaloedd penodol o fewn y tîm sgrinio Cymorth Cynnar i ymateb i'r galw parhaus a chynyddol am gymorth ac a oeddent wedi rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r adolygiad o'r broses atgyfeirio Cymorth Cynnar.

Dywedodd swyddogion fod staffio wedi cynyddu i gynorthwyo gyda'r galw, roeddent wedi diweddaru gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i adlewyrchu mwy o fanylion am beth oedd Cymorth Cynnar a beth oedd ar gael yn yr awdurdod lleol. Roeddent hefyd wedi bod yn edrych mwy ar yr hyn sydd ar gael yn allanol a thrwy gymunedau lleol neu wasanaethau cenedlaethol gyda'r nod o gael mwy o wybodaeth i bobl. Roedd hyn wedi helpu o ran eu rhestr aros wrth eu drws ffrynt ar gyfer gwasanaethau Cymorth Cynnar, oherwydd yn ôl ym mis Mehefin roedd ganddynt tua 250 o atgyfeiriadau yn aros i gael eu prosesu a fyddai'n cymryd tua phedair i chwe wythnos ac roeddent bellach mewn sefyllfa lle nad oedd rhestr aros am y drws ffrynt ar gyfer cymorth Cymorth Cynnar. Dywedasant y byddai darn o waith yn cael ei wneud i ystyried yn fanylach o ran o ble yr oedd atgyfeiriadau'n dod ac a oes angen cynnig cymorth penodol yn yr ardaloedd hynny.

Cyfeiriodd yr Aelodau at glybiau brecwast ysgolion a thrafod yn fanylach eu pwrpas ac nad oedd gan bob ysgol nhw. Mynegwyd pryder ganddynt na fyddai rhai plant yn cael pryd o fwyd cyn yr ysgol ac roeddent am sicrhau, er bod y clybiau brecwast ar gau yn y tymor hir mewn rhai ysgolion, bod y plant hynny a oedd mewn angen dybryd yn parhau i gael brecwast.

Dywedodd swyddogion yn yr ysgolion lle nad ydynt yn gallu darparu staff i gefnogi clwb brecwast ar hyn o bryd, eu bod yn ystyried opsiynau ynghylch a allent ddarparu elfen fwyd yn hytrach nag elfen oruchwylio’r clwb brecwast. Fe wnaethant sicrhau'r Aelodau eu bod yn gweithio'n galed i ddarparu ateb.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Gwahoddedigion a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:

- Bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried a all wneud hyfforddiant diogelu yn orfodol i Lywodraethwyr Ysgolion.
- Bod yr Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiad o amseroedd casglu ysgolion gan ddarparwyr trafnidiaeth dan gontract a'r effaith ar ddiogelu a lles disgyblion a staff.
- Cynyddu cysondeb ymweliadau cyswllt ysgolion gan Swyddogion Cyswllt yr Heddlu er mwyn sicrhau cyswllt a mewnbwn â'r holl ysgolion.
- Bod pryder yn cael ei fynegi ynghylch oedi cyfathrebu pan fod penaethiaid yn gwneud atgyfeiriadau diogelu a'u bod yn aros i dderbyn gwybodaeth yr oedd angen iddynt ei chael yn gyflym.
- Bod y pethau cadarnhaol o ran cymorth lles mewn ysgolion yn cael eu rhannu ar draws y fwrdeistref sirol fel arfer gorau.
- Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn cael cais i godi'r angen am gyfathrebu cymunedol cyson gan y Bwrdd Iechyd yn y Bwrdd

Partneriaeth Rhanbarthol nesaf a bod neges gyson i ysgolion ar gyfer cyfathrebu â rhieni ynghylch Covid, i egluro'r rheolau ynghylch a ddylai disgyblion fynychu.
- Bod yr heriau adnoddau dynol yn cael sylw i alluogi darparu brecwastau ym mhob ysgol, i fodloni'r rhwymedigaethau deddfwriaethol cenedlaethol a nodir gan Lywodraeth Cymru**.**
- Bod pryder yn cael ei fynegi ynghylch bod grantiau ar gyfer gwisg ysgol yn rhai ariannol yn hytrach na thaleb lle nad yw'r arian yn cael ei wario ar wisgoedd ysgol, oherwydd y pwysau costau byw a bod plant yn mynychu'r ysgol mewn hen ddillad neu ddim mewn gwisg ysgol.

a gofynnodd y Pwyllgor:
- Ymateb ar ba gymorth lles oedd ar gael i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau a pha gymorth a gwybodaeth y gallai disgyblion eu cael ynglŷn â'r Rhyfel yn Wcráin
- Bod mwy o fanylder penodol ynghylch y themâu/pryderon cyson am waharddiadau a diffyg presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd a'r mecanwaith cymorth sydd ar waith i gefnogi'r teuluoedd.
- Gwybodaeth am restrau aros Ysgolion unigol ar gyfer cwnsela.
- Data gwaharddiadau a gynrychiolir gan ganran o ddisgyblion fesul ysgol/ardal.
- Data ynghylch maint yr ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl heb ddiagnosis ac ADHD, i gynnwys yr amseroedd aros ar gyfer diagnosis ADHD a CAMHS.

10. <u>Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH</u>

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith yn Atodiad A i'r Pwyllgor gael ei thrafod a'i hystyried; gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol y mae'r Pwyllgor wedi'i nodi y dylid ei gynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion y maent yn dymuno mynychu, gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith, gan roi sylw i'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Holodd aelod pryd y byddai dau bwnc a restrwyd ar y Flaenraglen Waith fel rhai 'i'w hamserlennu' yn debygol o gael eu rhaglennu.  Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu fod nifer o newidiadau wedi bod i amserlennu adroddiadau oherwydd, yn rhannol, fod cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Medi wedi cael ei ganslo yn ystod y cyfnod galaru cenedlaethol a bod y Setliad Llywodraeth Leol wedi cael ei ohirio tan fis Rhagfyr gan ohirio ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Dywedodd y byddai amserlen yr adroddiadau yn cael eu cynnwys ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod cynllunio gwaith gyda'r Cadeirydd Craffu a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith, gan roi sylw i'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol fel rhan o'r eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi y byddai'r Flaenraglen Waith ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn

Atodiad B.

11. EITEMAU BRYS

Dim.